

JAMES, JAMES (SPINTHER) (1837 - 1914), un o haneswyr enwad y Bedyddwyr

Enw: James (Spinther) James

Dyddiad geni: 1837

Dyddiad marw: 1914

Priod: Elizabeth James (née Hobson)

Rhiant: Catherine Jones

Rhiant: Humphrey Jones

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: un o haneswyr enwad y Bedyddwyr

Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd ym mis Ebrill 1837, yn y Braich-garw, Talybont, Ceredigion, yn ail fab i Humphrey a Catherine Jones - symudodd y teulu i Fwlch-y-dderwen ar odre Pumlumon, pan nad oedd ef ond plentyn; ond gan barhau i fod yn aelodau gyda'r Bedyddwyr yn Nhalybont, lle y bedyddiwyd James James (yn ddiweddarach ar ei fywyd y chwanegodd y 'Spinther') yn 13 oed. Bugail (a gyrrwr gwartheg) oedd ef hyd 1854, pan aeth i Aberdâr i'r pyllau glo.

Yn Aberdâr ymdaflood i'r bywyd llenyddol effro a gefnogid gan ei weinidog [Thomas Price](#); ond yn Nhalybont, yn ystod egwyl o segurdd yn y gwaith glo, y dechreuodd bregethu.

Aeth i athrofa'r Bedyddwyr yn Hwlfordd yn 1859. Urddwyd ef yn 1861 yn weinidog yn Llanelian-yn-Rhos, a chododd gapelau yn Hen Golwyn a Llanddulas. Priododd Elizabeth Hobson o Landudno. Yn 1865-6 bu'n weinidog yn America; yna, wedi bod am ychydig heb ofalaeth, bu am ychydig fisoedd (yn 1867) yn weinidog yn y Treuddyn a Choedllai; ond yn 1870 sefydlwyd ef yng Nglanwydden, lle y bu am ugain mlynedd. Pregethai'n huawdl (ac areithiai'n wresog ar bynciau politicaidd), ond nid oedd yn ddyr cymeradwy.

Eithr fel llenor a hanesydd fe weithiai'n ddiflino. Sgrifennodd ryw gymaint o brydyddiaeth, a chyhoeddodd gasgliadau o emynau; ond y mae'n llawer mwy adnabyddus fel sgrifennwr ar hanes, yn enwedig hanes ei enwad. Cyfrannodd nifer mawr o ysgrifau a phenodau i lyfrau fel *Cymru* ' [Meudwy Môn](#) ' (Owen Jones), *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry* ' [Gweirydd ap Rhys](#) ' (R. J. Pryse), ac *Enwogion y Ffydd*. Gyda ' [Ioan Emlyn](#) ' (John Emlyn Jones), cwplaodd *Y Parthysyllydd* (1870-5 - gweler hanes y llyfr yn *Cardiff Catalogue*). Ond diatau mai ei brif hawl i glod yw ei bedair cyfrol *Hanes y Bedyddwyr yng Nghymru* (1893-1907), gwaith nad yw'n rhy ddymunol ei ysbryd nac yn gymesur ei ymdriniaeth, ond sydd eto'n hynod ddefnyddiol. Cyhoeddodd hefyd yn 1906 lyfr bychan, *Y Gwasanaeth a wnaeth y Bedyddwyr i'r Byd*, a gafodd gylchrediad mawr.

Bu farw yn ddisymwyth, 5 Tachwedd 1914.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Seiliwyd gan mwyaf ar ysgrif Thomas Shankland, *Y Geninen* (Gwyl Dewi), 1915, 9-15

Llawysgrifau Spinther yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Darllen Pellach

Undeb Bedyddwyr Cymru: [James – James Spinther \(1837-1914\)](#)

Erthygl Wicipedia: [James Spinther James](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [36694582](#)

Wikidata: [Q13129296](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

